Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

# Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru

Awst 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2025
WG52827 ISBN Digidol 978-1-80633-256-4

# 1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru rhwng 28 Ebrill 2025 ac 01 Mai 2025. [1]

1.2 Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, gan gynnwys swyddogaethau mewn perthynas â mabwysiadu, ar ran Gweinidogion Cymru yn unol ag Adran 149B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

1.3 Mae Cyfarwyddiadau Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015 yn gosod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol i gydweithio â'i gilydd. Prif ddiben y cyfarwyddiadau hyn yw sicrhau bod trefniadau ar y cyd effeithiol ar waith rhwng awdurdodau lleol i sicrhau gwasanaethau mabwysiadu cyson ac effeithiol ledled Cymru. Mae Gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol ledled Cymru yn rhan o strwythur tair haen i ddarparu gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru. Mae'r strwythur tair haen yn creu'r Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol. Er bod yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae'n amlwg ei fod yn cael budd o'r cymorth a ddarperir gan strwythurau eraill yn y gwasanaeth cenedlaethol.

1.4 Mae Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys yr awdurdodau lleol canlynol: awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys. Awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin yw'r awdurdod lleol dan sylw ar gyfer y rhanbarth hwn.

1.5 Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar sut mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo llesiant a diogelwch plant drwy ddarparu sefydlogrwydd â theuluoedd sy'n mabwysiadu a all ddiwallu eu hanghenion yn ddiogel a gwella'r tebygolrwydd y byddant yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Gwnaethom werthuso'r trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu sy'n cefnogi'r broses o ddarparu'r gwasanaeth, a pha mor effeithiol yw'r trefniadau hynny wrth sicrhau canlyniadau o ansawdd i blant.

1.6 Gwnaethom ystyried y cwestiynau allweddol canlynol o dan benawdau perthnasol:

[1] Mae Cydweithredfa Mabwysiadu Ranbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cyfeirio ati'i hun fel Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru. Felly, defnyddir y term hwn drwy'r adroddiad hwn.

**Llesiant**

- A gaiff anghenion llesiant y plant eu diogelu'n briodol wrth gael sefydlogrwydd?
- A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn hygyrch, yn ddiogel ac yn ymateb i anghenion y bobl?

**Gofal a chymorth**

- A yw plant, y teulu biolegol a'r teulu sy'n mabwysiadu yn cyflawni canlyniadau da drwy'r cymorth a ddarperir, sy'n hybu eu llesiant cyffredinol?

**Arweinyddiaeth a llywodraethu**

- A yw'r trefniadau arwain a llywodraethu yn sicrhau bod pobl yn cael gwasanaethau o ansawdd uchel?

1.7 Rhestr Terminoleg a Diffinio Meintiau Gweler Atodiad 2 a 3

## 2. Crynodeb o Ganfyddiadau'r Arolygiad

2.1 Cefnogir y Gydweithredfa Mabwysiadu Ranbarthol gan Fwrdd Rheoli Rhanbarthol sy'n cynnwys yr awdurdodau lleol perthnasol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gan y Gydweithredfa gytundeb partneriaeth a lofnodwyd, sy'n arwain at heriau rheoli strategol ac anghysondebau o ran y gwasanaethau a ddarperir. Mae arweinwyr yn cydnabod bod angen ffurfioli a gwella trefniadau llywodraethu. Mae gweithgor wedi'i sefydlu i weithio ar gytundeb partneriaeth a lofnodwyd ac iddo gael ei gwblhau o fewn chwe mis (erbyn mis Hydref 2025).

2.2 Mae Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn defnyddio canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a thempledi i lywio ymarfer a gyhoeddir gan y Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae hyn yn cefnogi ymarfer cyson. Mae angen ychwanegu gwybodaeth ychwanegol at rai dogfennau allweddol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â gofynion rheoleiddiol.

2.3 Mae'r broses o asesu a hyfforddi darpar fabwysiadwyr yn gadarn ac yn gynhwysfawr, gan roi sicrwydd ynghylch addasrwydd ymgeiswyr i fod yn rhieni sy'n mabwysiadu.

2.4 Mae'r prosesau ar gyfer paru plant â darpar fabwysiadwyr a mabwysiadwyr cymeradwy yn dda ar y cyfan. O'r hyn a welwyd, nododd y panel ymarfer cryf, gydag argymhellion amserol a gwybodus yn cael eu gwneud yn gyson i'r unigolion perthnasol sy'n gwneud penderfyniadau.

2.5 Mae gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn amrywio, gyda rhestrau aros yn effeithio ar hygyrchedd. Er bod rhai teuluoedd sy'n mabwysiadu yn cael cymorth, nodwyd profiadau cymysg yn yr ymatebion i'r arolwg. Mae'r cynlluniau cymorth mabwysiadu yn anghyson, mae rhai wedi'u datblygu'n dda ac yn cynnwys mewnbwn seicolegol, ond nid yw eraill yn cynnwys manylion hanfodol.

2.6 Mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi cymorth gan gymheiriaid ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma ond byddent yn gwerthfawrogi prosesau cyfathrebu gwell gan arweinwyr.

2.7 Mae systemau electronig gwahanol sydd ar waith yn y Gydweithredfa yn atal effeithlonrwydd, ac mae'r mesurau sicrhau ansawdd yn annigonol. Mae angen cytundeb wedi'i lofnodi, strategaeth well ar gyfer y gweithlu a fframwaith sicrhau ansad cadarn ar gyfer datblygu gwasanaethau cynaliadwy.

## 3. Canfyddiadau

### Llesiant

3.1 Mae Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithredu yn unol â chanllawiau, polisïau, gweithdrefnau a thempledi'r Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol. **Er bod y ddogfennaeth yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ei hangen, rhaid ychwanegu gwybodaeth ychwanegol at y datganiad o ddiben a'r canllawiau i blant a'r teulu biolegol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.**

3.2 Mae Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnig amrywiaeth dda o'r ddogfennaeth sydd ei hangen mewn fformatau amrywiol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch ac yn ymateb i ymholiadau pobl y mae ganddynt ddiddordeb mewn mabwysiadu. Cwblhaodd 18 o bobl arolwg pobl AGC. O'r rhain, atebodd 14 o bobl gwestiwn am hygyrchedd a digonolrwydd y wybodaeth sydd ar gael. Roedd 11 o'r bobl hyn yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y wybodaeth a ddarperir i ddarpar fabwysiadwyr yn ddigonol ac yn hygyrch.

3.3 Mae Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi mabwysiadu polisïau a gweithdrefnau arferion da y Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol mewn perthynas ag ymateb i ymholiadau cychwynnol gan ddarpar fabwysiadwyr. Ceir enghreifftiau o ymgeiswyr yn cael gwybodaeth mewn modd amserol ond ceir rhai enghreifftiau lle na chafodd darpar ymgeiswyr ymateb amserol. Yr effaith

bosibl yw y bydd y Gydweithredfa yn colli diddordeb ymgeiswyr newydd ar gam cynnar, a fydd, yn ei dro, yn effeithio ar argaeledd lleoliadau mabwysiadu. Mae'n hollbwysig bod darpar fabwysiadwyr yn cael ymatebion amserol o ystyried y nifer mawr o blant sy'n aros am leoliadau mabwysiadu ar hyn o bryd, a'r nifer cyfyngedig o fabwysiadwyr a gymeradwywyd. Mae'r prinder lleoliadau i grwpiau o frodyr a chwiorydd yn peri pryderon penodol o ystyried proffil y plant sy'n aros am leoliad. **Rhaid i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod darpar ymgeiswyr yn cael ymatebion a gwybodaeth berthnasol yn brydlon.** Bydd hyn yn cefnogi'r broses o gynyddu nifer digonol o fabwysiadwyr ymhellach.

3.4 Mae Mabwysiadwyr Canolbarth a Gorllewin Cymru yn rhagfynegi, yn nodi ac yn diwallu anghenion pobl o ran yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru ac yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o wasanaeth yn y Gymraeg, yn unol â fframwaith Mwy na geiriau[2]. Mae tua 35 y cant o'i weithlu yn siarad Cymraeg. Roedd 10 allan o 12 o'r bobl a atebodd gwestiwn yn arolwg pobl AGC ynghylch eu dewis iaith yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y wybodaeth a ddarperir i ddarpar fabwysiadwyr ar gael yn eu dewis iaith. Mae cyfieithiadau hefyd ar gael, er nad yw'n amlwg i ba raddau y mae'r ymgeiswyr/rhieni sy'n mabwysiadu yn deall hyn.

3.5 Gwelsom dystiolaeth bod ymarferwyr o Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru a gweithwyr cymdeithasol plant yn eirioli yn briodol ar ran plant a theuluoedd. Mae'r ymarferwyr yn hyderus eu bod yn defnyddio eiriolwyr ffurfiol ar gyfer rhieni biolegol, gan gynnwys rhieni biolegol sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

3.6 Mae'r ymarferwyr yn ymroddedig iawn i weithio'n sensitif ac mewn partneriaeth â theuluoedd biolegol, gan sicrhau bod ganddynt lais, a bod eu safbwyntiau a'u hawliau'n cael eu hyrwyddo. Ceir enghreifftiau da o ymarferwyr yn ymdrechu'n fynych i weithio gyda theuluoedd biolegol, ac mae llythyrau i rieni biolegol yn rhoi gwybodaeth glir am arwyddocâd cyfreithiol mabwysiadu, a'u hawliau cyfreithiol.

3.7 Mae asesiadau a gynhelir o ddarpar fabwysiadwyr yn gadarn, yn gynhwysfawr a cheir enghreifftiau o asesiadau o safon ardderchog. Fodd bynnag, mewn rhai enghreifftiau a welwyd, nid oedd yr asesiadau'n ystyried rhwydweithiau cymdeithasol a theuluol yr ymgeiswyr yn ddigonol i roi cymorth ar ôl lleoli plant. **Rhaid i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr yn cyfeirio at eu teulu ehangach yn gyson ac yn cefnogi rhwydweithiau a sut y byddent yn cefnogi lleoliad mabwysiadu.**

---

[2] Fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yw Mwy na geiriau. Mae dolen i'r ddogfen ar gael yma: [Mwy na geiriau (llyw,cymru)]().

3.8 Mae ymgeiswyr yn cael budd o hyfforddiant eang a chynhwysfawr. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth dda i'r ymgeiswyr o anghenion posibl y plant sy'n aros am leoliadau mabwysiadu. Roedd un ymgeisydd o'r farn y byddai wedi bod o fudd i'r hyfforddiant fod yn hybrid yn hytrach nag ar-lein yn unig.

3.9 Mae Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ymroddedig i Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru[3], a llwyddodd i gael lleoliad i dri phlentyn yn unol â'r fframwaith hwn ym mlwyddyn ariannol 2023-2024. Caiff darpar fabwysiadwyr eu hysbysu am y fframwaith hwn yn yr hyfforddiant cychwynnol a chânt eu hannog i archwilio'r opsiwn hwn.

3.10 Mae Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Fodd bynnag, mewn un enghraifft, ni roddwyd blaenoriaeth ddigonol i ddiogelwch plentyn ac ni wnaed penderfyniadau amserol mewn perthynas â hynny. Oherwydd prosesau cyfathrebu gwael, nid oedd y rhieni sy'n mabwysiadu yn glir ynghylch y broses a chawsant eu rhoi mewn sefyllfa fregus. Gwaethygodd y problemau diogelu yn yr achos hwn gan na chynhaliwyd cyfarfod amserol i amharu ar y broses fabwysiadu. **Rhaid i reolwyr Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod ganddynt systemau digon cadarn ar waith i uwchgyfeirio a herio penderfyniadau diogelu yn effeithiol.**

## Gofal a Chymorth

3.11 Mae proffiliau plant i ddod o hyd i deuluoedd yn gynhwysfawr ac yn rhoi gwybodaeth glir i ddarpar fabwysiadwyr am ofal cyfannol ac anghenion cymorth plentyn. Fel rhan o'r broses baru, bydd darpar fabwysiadwyr yn mynd i 'Ddiwrnod Deall y Plentyn'. **Mae hyn yn enghraifft o arfer da ac mae'n rhoi cyfle i ddarpar fabwysiadwyr gwrdd â gweithwyr proffesiynol a gofalwyr sydd wedi bod yn rhan o fywyd y plentyn.** Roedd mabwysiadwyr yn gwerthfawrogi'r cyfarfodydd hyn ond gwnaethant ychwanegu y byddai'n fuddiol iddynt gael y cofnodion yn gynt. **Dylai Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd o'r fath yn cael eu dosbarthu'n amserol.**

3.12 Mae amseroldeb y broses o baru plant â darpar fabwysiadwyr yn amrywio o hyd. Ceir enghreifftiau da o blant yn cael eu paru â mabwysiadwyr yn amserol, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud yn brydlon i chwilio am leoliadau y tu allan i Gymru

[3] Welsh Early Permanency Framework.pdf

pan fo hynny'n berthnasol. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau eraill lle bu'n rhaid i blant wynebu llawer o oedi. Mae Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn atgyfeirio plant mewn modd amserol at Gofrestr Mabwysiadu Cymru. Er hyn, er gwaethaf y prinder darpar fabwysiadwyr (sy'n broblem genedlaethol), mae rhai plant yn dal i wynebu oedi wrth gael eu paru â darpar fabwysiadwyr.

3.13 Ceir enghreifftiau o drefniadau pontio trylwyr i gefnogi plant, gofalwyr math a rhieni sy'n mabwysiadu mewn perthynas â'r broses o symud plentyn i leoliad mabwysiadu. Yn yr enghreifftiau gorau, mae cynlluniau pontio yn hyblyg, maent yn digwydd ar gyflymder y plentyn, ac maent yn cynnwys yr holl fanylion perthnasol i gefnogi cyfnod pontio esmwyth. Fodd bynnag, mae ymarfer o'r fath yn amrywio, ac mewn rhai enghreifftiau, nid oedd y trefniadau'n cefnogi cyfnod pontio esmwyth i blant i'w lleoliad mabwysiadu.

3.14 Mae Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnig mewnbwn seicolegydd a ystyrir fel adnodd gwerthfawr iawn gan ymarferwyr. Mae seicolegydd yn cyfrannu at sesiynau goruchwylio pod i drafod plant a darpar leoliadau, mae'n cyfrannu at sgyrsiau ynghylch paru plant â darpar fabwysiadwyr ac mae'n cyfrannu ac yn ateb ymholiadau gan ddarpar fabwysiadwyr yn ystod 'Diwrnod Deall y Plentyn'. **Mae hyn yn arfer da.** Mae cymorth seicoleg amser llawn dynodedig ar gael yn nhri o'r awdurdodau lleol, ond adnodd mwy cyfyngedig a geir yn yr awdurdod lleol arall. Effaith hyn yw nad yw ymarferwyr, rheini sy'n mabwysiadu a phlant yn y rhan hon o'r rhanbarth yn cael gwasanaeth teg. Hefyd, mae argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn amrywio ar draws yr awdurdodau lleol.

3.15 Mae'r broses o gwblhau cynlluniau cymorth mabwysiadu yn amrywio. Mae sawl un yn dangos dealltwriaeth drylwyr o anghenion cyfannol plant ac yn dangos bod y cymorth a ddarperir yn hyrwyddo canlyniadau gorau'r plentyn. Fodd bynnag, nid oes digon o fanylion yn rhai ohonynt neu nid oes tystiolaeth ategol.

3.16 Ceir enghreifftiau o wasanaethau cymorth da yn cael eu darparu gan gynnwys 'therachwarae', a grŵp cymorth cofnodion genedigaethau. Gwnaethom siarad ag unigolyn a oedd yn mynd i grŵp cymorth cofnodion genedigaethau a ddisgrifiodd y buddiannau a gafodd. **Sefydlwyd hyn gan Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru fel angen a nodwyd sy'n arfer da.** Fodd bynnag, dim ond yn rhan o'r rhanbarth y cynigir hyn ac nid yw ar gael yn rhwydd i bawb.

3.17 Mae Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cymorth ar ôl mabwysiadu. Roedd yr ymatebion i'r arolwg a'r sgyrsiau â mabwysiadwyr ac ymarferwyr yn adlewyrchu profiadau cymysg mewn perthynas â gwasanaethau ar ôl mabwysiadu ac yn tynnu sylw at bryderon ynghylch darpariaeth anghyfartal. Nododd un mabwysiadwr yn yr arolwg pobl, "prin iawn yw'r cymorth ar ôl gorchymyn mabwysiadu. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau'n cael eu cynnal yn ein hardal ni na grwpiau cymorth i ddiwallu ein hanghenion." Nododd mabwysiadwr arall bod "yr asesiad wedi creu argraff dda arnaf ac rwyf wrthi'n cael sesiynau [ar ôl mabwysiadu] tra fy mod ar restr aros gydag Adoption UK".

3.18 Mae rhestrau aros ar gyfer asesiadau a gwasanaethau cymorth mabwysiadu, gan dynnu sylw pellach at heriau o ran hygyrchedd. Mae Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cydnabod bod angen mwy o gysondeb a thegwch. **Rhaid i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod cymorth mabwysiadu'n cael ei ddarparu'n gyson ac yn amserol, bod cynlluniau cymorth mabwysiadu o ansawdd cyson a'u bod yn cael eu hadolygu'n amserol.**

3.19 Mae ymarferwyr yn hyrwyddo pwysigrwydd cyswllt fel rhan o'r broses fabwysiadu fodern, gan helpu rhieni sy'n mabwysiadu i ddeall ei bwysigrwydd. Er bod enghreifftiau cadarnhaol yn bodoli, gallai rhai trefniadau cyswllt fod yn fwy rhagweithiol, a gall prinder lleoliadau rhanbarthol greu heriau wrth hyrwyddo cyswllt. Dywedodd ymarferwyr a rheolwyr wrthym fod y broses o atal rôl cymorth ar ôl mabwysiadu mewn ardal o'r rhanbarth wedi creu heriau sylweddol a'i bod yn effeithio ar allu i hyrwyddo a threfnu cyswllt ar ôl mabwysiadu. Roedd dwy o'r pum cwyn a wnaed i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf mewn perthynas â pheidio â hyrwyddo cyswllt yn unol â'r trefniadau. Yn ei hunanwerthusiad, cydnabu Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru fod angen nas diwallwyd mewn perthynas â gwaith cyswllt ar ôl mabwysiadu, gan gynnwys rheoli cytundebau blwch llythyrau a mathau eraill o gyswllt ar ôl mabwysiadu. **Dylai Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod ymarfer yn cyd-fynd â'r canllaw arfer da ar gyfer cyswllt yn gyson.**

3.20 Caiff gwaith stori bywyd ei werthfawrogi a'i hyrwyddo ond er y ceir rhai enghreifftiau da, mae ansawdd y gwaith pwysig hwn yn amrywio, ac mae amseroldeb yn broblem. Mae gan y gwasanaethau plant a Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru rôl yn cefnogi plant drwy waith taith bywyd. Allan o'r 18 o bobl a gwblhaodd arolwg AGC, ymatebodd 15 i gwestiwn am gymorth i helpu plant sydd wedi cael eu mabwysiadu i ddeall eu bywyd cynnar. Roedd bron hanner yn teimlo nad oedd y cymorth hwn yn ddigonol. Mae rhai cofnodion a welwyd yn cefnogi hyn. Er bod rhywfaint o oedi mewn perthynas â gwaith stori bywyd, mae mentrau fel blychau atgofion yn helpu mabwysiadwyr i roi cymorth gwell i blant ar ôl iddynt gael lleoliad. Mae Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn nodi nad yw ymarfer yn cydymffurfio'n gyson â'r canllawiau perthnasol ac mae'n cefnogi'r pedwar awdurdod lleol i wella'r gwaith amserol o gwblhau gwaith taith bywyd. **Rhaid i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru barhau â'i ymdrechion i sicrhau bod gwaith taith bywyd yn cael ei wneud yn amserol.**

3.21 Mae'r gwasanaethau a ddarperir i gefnogi mynediad i gofnodion genedigaethau a gwasanaethau cyfryngol yn amrywio, ac mae rhestr aros ar waith ar hyn o bryd. Ni cheir strwythur i'r prosesau ar gyfer goruchwylio'r rhestr aros, ac mae diffyg cyfathrebu â'r rhai sy'n aros am ymgysylltiad â gwasanaeth. **Rhaid i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod y prosesau i oruchwylio'r rhestr aros ac i gyfathrebu â phobl sydd ar restrau aros yn gwella.** Mae ymarferwyr yn pryderu ynghylch y diffyg adnoddau a diffyg gwasanaeth teg. Er enghraifft, nodwyd oherwydd pwysau rhestrau aros, bod rhai pobl yn cael eu cyfeirio at asiantaethau preifat, lle gall fod angen iddynt dalu costau neu, mewn enghreifftiau eraill, caiff achosion eu dyrannu i ymarferion yn y tîm nad ydynt yn ystyried bod ganddynt yr arbenigedd perthnasol sydd ei angen. Roedd ymarferwyr yn pryderu'n arbennig ynghylch diffyg gwydnwch y

sefydliad o ran cwnsela ar gofnodion genedigaethau. Er bod rhai unigolion wedi datblygu arbenigedd yn y maes hwn, mae wedi cael ei ysgogi gan ddiddordeb personol yn hytrach na dull gweithredu strategol er mwyn sicrhau gwydnwch a gallu hirdymor. **Rhaid i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod y gwasanaethau a gynigir yn cael eu darparu ar sail deg ac yn unol â'r datganiad o ddiben.**

3.22 Mae dau banel mabwysiadu wedi'u lleoli mewn dwy ardal ddaearyddol wahanol o Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru. Drwy arsylwi ar un panel mabwysiadu, gwelwyd bod y panel yn effeithiol ac yn gwneud argymhellion amserol a gwybodus i'r unigolion perthnasol sy'n gwneud penderfyniadau. Nodwyd mai prin yw'r rhyngwyneb uniongyrchol rhwng y ddau banel, sy'n gyfle a gollwyd i ddysgu a sicrhau ansawdd. **Dylai Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru ystyried fforymau cliriach i rannu gwersi i'w dysgu ac i adolygu ansawdd y ddau banel.**

3.23 Mae'r prosesau i recriwtio, fetio a hyfforddi aelodau panel yn effeithiol ar y cyfan. Mae'r aelodau yn cael sesiynau sefydlu, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt gontractau sy'n amlinellu eu rolau. Mae'r aelodau yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt. Yng Ngorllewin y rhanbarth, mae cynghorydd profiadol ar gael i'r panel, er bod sgyrsiau'n dal i fynd rhagddynt ynghylch a ddylai cynghorwyr fod yn annibynnol, fel yn y gwasanaethau maethu yn y rhanbarth. Bydd y broses o arsylwi ar banel mabwysiadu Powys yn digwydd y tu allan i'r arolygiad.

3.24 Mae gan y ddau banel drefniadau llywodraethu ac aelodaeth ar wahân a chânt eu cefnogi gan eu cynghorwyr meddygol eu hunain a gyflogir gan fyrddau iechyd gwahanol. Ceir enghreifftiau da o gynghorwyr meddygol yn rhannu gwybodaeth berthnasol â darpar fabwysiadwyr ynghylch anghenion iechyd plant a'u teulu biolegol i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Prin yw'r gwydnwch yn y gwasanaeth os bydd cynghorydd meddygol yn absennol. Mae hyn wedi arwain at oedi cyn cael lleoliad i blant ar fwy nag un achlysur o leiaf.

3.25 Mae cofnodion cyfarfodydd y panel o safon uchel ar y cyfan ac maent yn dangos bod trefniadau cadarn i lywio argymhellion a wneir i Swyddog Gwneud Penderfyniadau'r Asiantaeth. Mae'r broses gwneud penderfyniadau a ddilynir gan Swyddog Gwneud Penderfyniadau'r Asiantaeth yn y priod awdurdodau lleol yn amserol ar y cyfan. Mae trefniadau'r panel yn gynhwysol, a chaiff darpar fabwysiadwyr eu cefnogi a'u hannog i fynychu ac i fynegi eu barn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

3.26 Mae gan reolwyr Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y gwasanaeth. Maent am gyflawni gweledigaeth wreiddiol gwasanaeth cenedlaethol sy'n darparu'n rhanbarthol. Fel y nodir yn eu

Hunanwerthusiad, maent yn ymwybodol o'r meysydd gwasanaeth y mae angen eu hadolygu a'u datblygu yn weithredol ac yn strategol.

3.27 Mae Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi nodi bod angen blaenoriaethu'r broses o sefydlu trefniant partneriaeth ysgrifenedig a lofnodir, ac mae cynlluniau clir ar waith i fynd i'r afael â hyn. Mae'n rhaid i'r ddogfen gynnwys llinellau atebolrwydd a chyfrifoldeb clir, gan sicrhau bod prosesau goruchwylio a llywodraethu mwy effeithiol. Rhagwelir y caiff trefniant partneriaeth ysgrifenedig a lofnodir ei gwblhau a'i lofnodi ymhen chwe mis (Hydref 2025). Bydd y cytundeb partneriaeth yn cefnogi gwaith i ddatblygu darpariaeth weithredol a strategol. **Rhaid i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru barhau â'i raglen waith bresennol ar fyrder er mwyn cael Cytundeb partneriaeth ysgrifenedig a lofnodir sy'n bodloni'r gofynion.**

3.28 Caiff Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru ei gyfarwyddo a'i gefnogi gan Fwrdd Rheoli Rhanbarthol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynrychiolwyr o'r maes iechyd ac addysg ar y Bwrdd Rheoli Rhanbarthol. **Rhaid cael cynrychiolaeth o adrannau addysg awdurdodau lleol ynghyd â byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar y Bwrdd Rheoli Rhanbarthol.** Byddai hyn yn sicrhau mwy o ymrwymiad i gynllunio strategol gan bob partner, gan sicrhau bod plant sydd wedi'u mabwysiadu yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyffredinol, wedi'u targedu neu arbenigol yn gyson, er mwyn hyrwyddo eu llesiant cyffredinol a chefnogi sefydlogrwydd.

3.29 Mae Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi nodi bod angen cael Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol dynodedig. Mae'r pedwar awdurdod lleol wedi cytuno i ariannu'r swydd hon ar y cyd. Bydd hyn o fudd gan fod gan yr unigolyn sy'n ymgymryd â rôl Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol yn Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru bortffolio ehangach o lawer sy'n effeithio ar ei allu i arwain er mwyn annog camau i ddatblygu'r gwasanaeth o fewn Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru.

3.30 Mae gan Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru ddogfennau a chynlluniau strategol, a ddylai gefnogi'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ba raddau y defnyddir rhai o'r rhain. Er enghraifft, nid yw'r cynllun busnes presennol yn cynnwys digon o fanylion mewn perthynas â rolau, cyfrifoldebau ac amserlenni. **Dylai Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod y dogfennau a'r cynlluniau yn cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau'n llawn yn unol â'r gofynion perthnasol.**

3.31 Mae Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn nodi bod 38 o blant wrthi'n aros i gael lleoliad mabwysiadu. Gall yr amser y mae plant yn aros am leoliad o'r fath amrywio er y gwelsom fod un plentyn wedi gorfod aros am 10 mis ac nad oedd lleoliad wedi'i nodi eto. Mae strategaethau recriwtio a marchnata yn ddull pwysig o sicrhau bod digon o fabwysiadwyr ar gyfer plant yn y rhanbarth. Mae gan Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru strategaeth farchnata ar

gyfer 2025, er mai ar ffurf drafft y mae ar hyn o bryd. Byddai o fudd i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru roi ystyriaeth bellach i sut mae ei strategaeth ei hun yn cyd-fynd â strategaeth farchnata'r Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol, sut y gellid gwneud rhagor o welliannau gan wella ei ffocws strategol ac effeithiolrwydd posibl y gwasanaethau a ddarperir. **Dylai Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru gwblhau ei strategaeth farchnata i'w gefnogi yn ei ymdrechion i recriwtio nifer digonol o fabwysiadwyr.**

3.32 Mae gan Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru reolwyr ac ymarferwyr medrus a phrofiadol sy'n angerddol ac yn ymrwymedig i'w gwaith. Ceir cydberthnasau da rhwng ymarferwyr ym Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru a gweithwyr cymdeithasol y plant mewn awdurdodau lleol. Cadarnhaodd pob un o'r 26 a gwblhaodd yr arolwg i ymarferwyr / rheolwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan gydweithwyr, a nododd 20 eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan reolwyr i gyflawni eu rolau. Mae'r ymarferwyr yn gweithio mewn modd sy'n ystyriol o drawma ac maent yn canolbwyntio ar gefnogi'r plant, gan hyrwyddo eu hawliau a sicrhau lleoliadau parhaus priodol ar eu cyfer.

3.33 Mae'r ymarferwyr yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd gan reolwyr llinell a rheolwyr tîm profiadol. Ceir ffocws da ar oruchwylio er mwyn osgoi oedi diangen i'r plant. **Fodd bynnag, ni chaiff natur fyfyriol y prosesau goruchwylio ei chofnodi'n dda, a dylid cryfhau hyn.** Mae'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi eu rheolwyr llinell ond yn deall bod eu hystod o gyfrifoldebau yn effeithio ar eu hargaeledd y tu allan i oruchwyliaeth ffurfiol. Mae'r staff am i'r uwch-arweinwyr fabwysiadu dull gweithredu mwy cytbwys, gan gydnabod llwyddiannau a meysydd i'w gwella. Maent yn pwysleisio'r angen i'r arweinwyr ymgysylltu mwy â heriau gweithredol, yn hytrach na chanolbwyntio'n bennaf ar ganlyniadau cadarnhaol. Mae rhai aelodau o'r staff yn teimlo bod yr anghydbwysedd hwn wedi arwain at ddiffyg cysylltiad rhwng uwch-arweinwyr a thimau llinell flaen, gan gyfrannu at deimladau o beidio â chael eu gwerthfawrogi.

3.34 Mae gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cynnal i ddangos addasrwydd pobl i weithio yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth a ddarperir gan Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dangos yn llawn bod yr holl wiriadau addasrwydd wedi'u cynnal yn gyson. **Rhaid i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod yr holl wiriadau cyn cyflogi ar gael i ddangos addasrwydd pobl i weithio yn y gwasanaeth.**

3.35 Mae'r gweithlu yn gymharol sefydlog, fodd bynnag, mae heriau yn bodoli ac yn effeithio ar amseroldeb y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r ymarferwyr yn nodi bod cydraddoldeb o ran staffio ac adnoddau ar draws Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn bryder. Mae pryderon pellach a nodwyd yn ymwneud â'r heriau daearyddol, opsiynau annigonol ac anniogel ar gyfer trefniadau desgiau poeth, a'r pwysau gwaith presennol.

3.36 Mae'r staff yn ymrwymedig ond mae morâl rhai aelodau o'r staff yn isel. Ceir safbwyntiau cymysg ar y graddau y gellir ymdopi â llwyth achosion, gyda 16 o'r 26 a gwblhaodd yr arolwg yn cytuno y gellir ymdopi a 10 yn anghytuno.

3.37 Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol gwahanol o fewn Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn defnyddio systemau cofnodi electronig gwahanol. O ganlyniad, nid yw'n rhwydd cael gafael ar wybodaeth, ac mae'r systemau nad ydynt yn gysylltiedig yn cyfyngu ar y gallu i rannu gwybodaeth. **Nodir bod trefniadau ar waith i'r holl awdurdodau lleol ddefnyddio'r un system i gofnodi gwybodaeth, a dylai Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod y system newydd yn lleihau'r heriau presennol.**

3.38 Prin yw'r mesurau sicrhau ansawdd a geir ym Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac ystyriwyd bod y strategaethau presennol ar gyfer goruchwylio a monitro data yn annigonol. Ni chaiff adolygiadau gwasanaeth y mae'n ofynnol eu cynnal ddwywaith y flwyddyn eu llywio'n gyson gan brosesau sicrhau ansawdd. Ar hyn o bryd, mae Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dibynnu ar adroddiadau chwarterol cenedlaethol y Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol nad ydynt yn bodloni'r gofynion i gynnwys cyfranogiad ymarferwyr a'r cyhoedd wrth wella gwasanaethau, er gwaethaf y ffaith eu bod yn gynhwysfawr. Roedd 8 allan o 13 o'r bobl a atebodd gwestiwn yn arolwg pobl AGC yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno bod cyfleoedd i gymryd rhan yn y gwaith o wella a datblygu gwasanaethau. **Rhaid i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod adroddiadau sy'n gweithredu  fel adolygiadau o ansawdd gwasanaeth gydymffurfio'n llawn â'r gofynion.**

3.39 Nododd 8 o'r 14 o bobl a atebodd y cwestiwn yn arolwg pobl AGC o ran a oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn am y gwasanaethau mabwysiadu eu bod yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno. Ni cheir y lefel ofynnol o fanylder mewn perthynas â gwneud cwyn ar hyn o bryd yn y datganiad o ddiben, y canllaw i rieni biolegol a'r canllaw i blant. **Rhaid i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod y dogfennau perthnasol yn cynnwys y lefel ofynnol o fanylder i sicrhau bod pobl yn cael gwybod yn llawn am eu hawliau.**

3.40 Nododd y staff mai ymwybyddiaeth gyfyngedig a geir o'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n llywodraethu'r broses o gofnodi a rheoli cofnodion. Er y cydnabyddir cymhlethdod y broses o reoli cofnodion ar draws sawl system electronig, mae'r ymarfer presennol yn dibynnu'n helaeth ar arfer a phrosesau anffurfiol. **Rhaid mynd i'r afael â hyn i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau rheoliadol ffurfiol a'u bod yn eu dilyn.**

## 4. Meysydd Blaenoriaeth i'w Gwella

4.1 **Rhaid** i'r datganiad o ddiben gynnwys yr holl wybodaeth ofynnol yn unol â Rheoliad 4 ac Atodlen 1 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019. Hefyd, pan gaiff y datganiad o ddiben ei adolygu nesaf, rhaid i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru hysbysu AGC yn unol â Rheoliad 5(3) a (6) o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

4.2 **Rhaid** i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod y canllaw i deuluoedd biolegol gynnwys cyfeiriad at fanylion cyswllt/proses gwyno leol ac adolygu ei ganllaw presennol i blant er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019, Rheoliad 12.

4.3 **Rhaid** i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod darpar ymgeiswyr yn cael ymatebion a gwybodaeth berthnasol yn brydlon yn unol â Rheoliad 42 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

4.4 **Rhaid** i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol er mwyn cynnwys manylion am deulu ehangach ymgeiswyr a'u rôl a'u pwysigrwydd i'r darpar fabwysiadwr ac unrhyw blant a allai gael eu lleoli â'r mabwysiadwyr yn unol â Rhan 3 o Atodlen 4 o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020.

4.5 **Rhaid** i reolwyr sicrhau bod ganddynt systemau digon cadarn ar waith i oruchwylio rheolwyr yn effeithiol mewn perthynas â'u cyfrifoldebau diogelu. Mae hyn yn unol â Rheoliad 10 (4) o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

4.6 **Rhaid** i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod argaeledd a darpariaeth y gwasanaeth mabwysiadu a'r gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn gyson ac yn amserol yn unol â Pharagraff 2 o Gyfarwyddiadau Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) 2015.

4.7 **Rhaid** i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod cynlluniau cymorth mabwysiadu o ansawdd cyson ac y cânt eu hadolygu'n amserol yn unol â Rheoliad 16 a 17 o Reoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005.

4.8 **Rhaid** i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod gwaith taith bywyd, fel rhan o'r gwasanaeth cymorth mabwysiadu, yn cael ei wneud a'i ddarparu'n amserol yn unol â Rheoliad 4(2) o Reoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005.

4.9 **Rhaid** i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod gwasanaethau a gynigir yn cael eu darparu ar sawl deg ac yn unol â'i ddatganiad o ddiben yn unol â Rheoliad 5(1) o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

4.10 **Rhaid** i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau cydymffurfiaeth â Pharagraff 7 (gan gynnwys Paragraff 7(4) (m) ac (n)) o Gyfarwyddiadau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) 2015 drwy ddatblygu ei raglen waith bresennol i sicrhau cytundeb partneriaeth ysgrifenedig a lofnodir ar fyrder, a sicrhau y ceir cynrychiolaeth o adrannau addysg awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG ar y Bwrdd Rheoli Rhanbarthol.

4.11 **Rhaid** i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod adroddiadau sy'n gweithredu fel adolygiadau o ansawdd gwasanaeth gydymffurfio'n llawn â Rheoliad 39(1) o Reoliadau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019. Rhaid cael trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth yn unol â Rheoliad 6 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

4.12 **Rhaid** i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol, gan gynnwys gwiriadau cyn cyflogi, i ddangos bod ymarferydd yn addas i weithio yn y gwasanaeth ar gael yn unol â Rheoliad 22 ac Atodlen 2 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

## 5. Argymhelliad

5.1 **Dylai** Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd Diwrnod Deall y Plentyn yn cael eu dosbarthu mewn modd amserol.

5.2 **Dylai** Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod cynlluniau cymorth yn cyd-fynd yn gyson â'r disgwyliadau fel y nodwyd yn y Canllawiau Arfer Da ar gyfer Cymorth a Chyswllt Mabwysiadu.

5.3 **Dylai** prosesau presennol ar gyfer goruchwylio'r rhestr aros a chyfathrebu â phobl sydd ar restrau aros wella.

5.4 **Dylai** Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod dogfennau a chynlluniau strategol yn cefnogi'r gwasanaethau a ddarperir yn llawn.

5.5 **Dylai** Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru gwblhau ei strategaeth farchnata er mwyn cefnogi'r broses o recriwtio digon o fabwysiadwyr ar gyfer plant sy'n aros am leoliad.

5.6 **Dylid** atgyfnerthu'r broses o gofnodi prosesau goruchwylio myfyriol ar gyfer staff.

5.7 **Dylai** Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau bod fframwaith sicrhau ansawdd mwy ffurfiol a chadarn ar waith, gydag arweinydd dynodedig er mwyn sicrhau ansawdd.

## 6. Y camau nesaf

6.1 Mae AGC yn ei gwneud y ofynnol i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru lunio cynllun gwella a'i rannu ag AGC erbyn 30/09/2025.

6.2 Bydd AGC yn adolygu'r cynllun gwella ac yn ceisio cael sicrwydd pellach o gynnydd. Gwneir hyn drwy gyfarfod â Phennaeth Gwasanaethau Plant yr awdurdod lleol dan sylw ynghyd â'r Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol o fewn 18-24 mis i gyhoeddi'r adroddiad.

6.3 Bydd AGC yn ystyried rhagor o weithgarwch er mwyn cael sicrwydd o welliant parhaus a bydd yn ystyried gweithgarwch ymgysylltu pwrpasol i gefnogi ei phrosesau monitro parhaus.


## 7. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**



**Julie Heal**
Pennaeth Arolygu Gwasanaethau Oedolion a Phlant
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

## Atodiad 1

### Methodoleg

### Hunanwerthuso

- Gofynnwyd i Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru gwblhau hunanwerthusiad er mwyn myfyrio ar ei berfformiad ei hun mewn meysydd penodol o'r gwasanaeth.

### Gwaith maes

- Gwnaethom adolygu profiadau 21 o bobl drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 17 o gofnodion ac olrhain pedwar.
- Gall olrhain cofnod unigolyn gynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr cymdeithasol mabwysiadu, ei weithiwr cymdeithasol gofal plant, y rheolwr, a lle y bo'n briodol, weithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu â 16 o bobl sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr (gan gynnwys rhieni sy'n mabwysiadu, gofalwyr maeth ac oedolion sydd wedi cael eu mabwysiadu) drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws.
- Gwnaethom ymgysylltu â 29 o ymarferwyr a rheolwyr drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws. Roedd hyn yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol gofal plant, gweithwyr cymdeithasol mabwysiadu, rheolwyr tîm, rheolwyr tîm cynorthwyol, cynrychiolydd asiantaeth fabwysiadu gwirfoddol, rheolwr mabwysiadu rhanbarthol a phennaeth gwasanaethau plant ar gyfer awdurdod lleol y Gydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol.
- Gwnaethom siarad ag un aelod etholedig.
- Gwnaethom ymgysylltu â naw gweithiwr cymdeithasol gofal plant a chynrychiolwyr o asiantaethau partner drwy gyfweliadau.
- Gwnaethom siarad â dau gadeirydd panel a 12 o aelodau panel.
- Gwnaethom siarad â phedwar plentyn gyda'u rhieni mabwysiedig yn bresennol.
- Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau goruchwylio staff.
- Gwnaethom arsylwi ar Ddiwrnod Deall y Plentyn
- Gwnaethom edrych ar y dogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i ymarferwyr a rheolwyr Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru, sefydliadau partner a phobl. Cawsom ymatebion gan 26 o ymarferwyr/rheolwyr o Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru, 18 gan bobl a saith gan randdeiliaid perthnasol. Ni chawsom unrhyw ymatebion gan deuluoedd biolegol.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

**Y Gymraeg**

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol y tro hwn.

## Atodiad 2

**Rhestr Terminoleg**

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r Gydweithredfa Mabwysiadu Ranbarthol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r Gydweithredfa Mabwysiadu Ranbarthol yn cyflawni ei dyletswydd(au) statudol ar hyn o bryd a rhaid iddi weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl. Nid yw'n cyfateb i fethiant i gyflawni dyletswydd statudol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd y Gydweithredfa Mabwysiadu Ranbarthol yn cyflawni ei dyletswydd(au) cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Arferion da** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn y Gydweithredfa Mabwysiadu Ranbarthol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |

**Atodiad 3**

**Tabl Diffinio Meintiau**

| **Terminoleg** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Bron pob un | Heb fawr ddim eithriadau |
| Rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos at 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Nifer bach | Llai nag 20% |
| Nifer bach iawn | Llai na 10% |